Dyma ein cartref am chwe blynedd ar hugain, yn niwedd y ganrif ddwaetha a dechrau hon. Yng nghegin Cae'r Gors byddem yn dysgu ein hadnodau ar gyfer yr Ysgol Sul a'r seiat, yn gwneud ein tasgau ysgol, yn darllen storïau a phapurau newydd, yn chwarae ludo a dominos gyda'r nos, yn gwrando ar nhad yn canu Gelert Ci Llywelyn ar nos Sadwrn, yn gwrando ar mam yn dweud hanes ei phlentyndod a storïau, yn gwrando arni yn adrodd darnau o Eben Fardd ac yn torri allan i ganu weithiau. Yma y bwytaem y bwyd da plaen a gaem, pawb â'i le wrth y bwrdd mawr hir. Gan fod gennym ddwy fuwch yn y beudy, dau fochyn yn y cwt a ieir hyd y caeau, ni byddem yn brin o fenyn, wyau a llefrith, oblegid nid oedd mam yn credu mewn gwerthu'r menyng (ond i ambell gwsmer) a'i gynilo ar ei theulu ei hun.

Atgofion

Y Gegin

'Ga' i weld o?' meddai Begw wrth ei mam a mynd ar ei phennau-gliniau ar gadair yn y tŷ llaeth. Jeli oedd yr 'o', peth newydd sbon i fam Begw ac i bob mam arall yn yr ardal. I Begw, rhyfeddod oedd y peth hwn a oedd yn ddŵr ar fwrdd y tŷ llaeth yn y nos ac yn gryndod solet yn y bore, ond, yn fwy na hynny, yn beth mor dda i'w fwyta.

Aeth i sbecian o gwmpas y tŷ llaeth yn y bore pan oedd ei mam yn bwydo'r moch, a dyfod o hyd i'r jeli mewn powlen ar y llawr wedi sadio, a phlât ar ei wyneb. Pan welodd ei mam yn rhoi lliain ar y bwrdd ar ôl cinio, ac yn estyn y radell i hwylio gwneud crempog, fe wyddai fod pob dim yn iawn yr ochr honno. Cafodd un funud ofnadwy pan ddywedodd ei mam wrthi ei hun fwy na heb: Mi fasa lobscows yn well pryd i'r hogan yna, wir, a hitha ar i chythlwg bob amsar.

Te yn y Grug

Yma y bwytaem y bwyd da plaen a gaem, pawb â'i le wrth y bwrdd mawr hir.

Ein pryd mawr oedd swper chwarel, y pryd a gaem wedi i nhad a mrodyr ddwad adre o'r chwarel, caem lobsgows, neu iau a stwnsh rwden, neu gig mochyn a stwnsh pys neu rwden. Byddai gennym lwyth o rwdins yn y beudy, i'w malu i'r gwartheg. Dim ond ar ddiwrnod pobi a dydd Sul y caem bwdin, pan fyddai'r popty ar fynd.

Yma yn y gegin y gwneid y rhan fwyaf o waith y tŷ. Pobi, golchi, smwddio yn ogystal a llunau'r gegin ei hun. Ar y tân o dan y simdde fawr y byddid yn ffrïo cig moch a phethau eraill: ar y tân y byddem yn berwi tatws a llysiau. Yn y popty y byddem yn crasu bara. Yr oedd dau bopty o dan y simdde fawr, un mawr, a lle i roi tân odano, ac un bychan wrth ochr y tân. Gellid coginio yn yr un bach, dim ond agor y ffliw uwch ei ben. Ond yr oedd rhywun wedi rhoi darn o haearn rhyngddo â'r tân, fel na ellid coginio gydag ef, ond byddai'n ddigon cynnes i eirio dillad.

Atgofion

Siamber

Yr oedd acw ddwy siamber, yr un gefn wrth ymyl y tŷ llaeth a dim ond gwely pren wedi ei baentio'n wyn ynddi a bwrdd bach a chadair. Hen wely wenscot wedi llifio ei ddarn uchaf i ffwrdd oedd hwn. Byddwn wrth fy modd yn cysgu yn y gwely yma oblegid yr oedd y ffenestr yn agor ar y gadlas, a deuai aroglau gwair i mewn, a chlywn glochdar yr ieir. Yr oedd llawr y siamber hon wedi ei sgwrio'n wyn. Wedi i ni blant dyfu, bu'n rhaid cael lle arall i mi gysgu, ac nid oedd dim i'w wneud ond cau allan ddarn o'r tŷ llaeth a gwneud gwely bychan imi yno. Rhaid bod y tŷ llaeth yn un mawr, oblegid yr oedd lle ynddo wedyn i gorddi a thrin menyn, ac ymolchi mewn rhan ohono.

Atgofion

Y mae'r gwynt yn ubain o gwmpas y tŷ ac yn crïo fel plentyn. Mae canghennau'r coed wrth y gadlas yn gwichian a chlywaf rai ohonynt yn torri'n gratsh. Ebwch mawr, tawel a llechen yn mynd oddi ar do'r beudy ac yn disgyn yn rhywle. Mae arnaf ofn i do'r tŷ fynd. Ond nid oes rhaid i ni ofni, yr ydym yn ddiddos yn y gwely a nhad a mam wrth y tân o dan y simdde fawr. Mae Duw yn y Nefoedd yn gorwedd ar wastad ei gefn ar y cymylau gwlanog, a'i farf yr un fath â'r gwlan. Y Fo sy'n maddau inni am wneud drygau ac yn gofalu na chawn ni fynd i'r tân mawr. Ond nhad a mam sy'n rhoi bwyd inni a tho nad yw'n syrthio.

Y Lôn Wen

Yr oedd y siamber ffrynt yn fwy na'r un gefn, lle i wely mawr ynddi, cadeiriau, bwrdd ymolchi gyda'i jwg a basin, bwrdd ymwisgo, a alwem ni yn fwrdd glas, a *chest of drawers* fawr dderw wedi ei gwneud gan saer o'r ardal. Cloc hen ffasiwn ar y pared, ac oddi wrth hwn y dysgodd fy mrawd ddweud faint oedd hi o'r gloch. Yr oedd lle tân

ynddi a thynnai hwn yn iawn pan fyddai ei angen adeg salwch. Am ei bod yn siamber orau yr oedd oelcloth ar ei llawr a ryg. Yma y byddem pan fyddem yn sâl, ac mae gennyf gof hoffus am gael bwyd yn y gwely yn y siamber hon pan fyddwn yn dechrau mendio...

Yr oedd gennym daflod hefyd, a dau wely ynddi, gwllâu bychain reit wrth y to, a heb le i ddim arall ond bwrdd bychan. Fy ngwaith i ar fore Sadwrn fyddai sgwrio'r ysgol i fynd i fyny iddi, hyn a llau cyllyll.

Atgofion

Y tŷ Ilaeth

Mae hi'n fore poeth ym mis Gorffennaf, diwrnod cario gwair. Bydd nhad a ffrindia o'r chwarel yn dyfod adra o'r chwarel hanner dydd, ac mae tipyn o gymdogion wedi dŵad yn barod ac wedi dechrau troi'r gwair. Yr wyf yn clywed sŵn y cribiniau yn mynd yr un amser â'i gilydd i gyd a'r gwair yn gwneud sŵn fel papur sidan. Cyn mynd allan i'r cae yr wyf yn mynd i'r tŷ Ilaeth unwaith eto i gael sbec ar y danteithion. Mae rhesiad hir o ddysglau cochion ar y bwrdd yn llawn o bwdin reis a digonedd o wyau ynddo, ac wyneb y pwdin yn felyn ac yn llyfn fel brest y caneri sydd yn ei gats wrth ben y bwrdd. Mae ei oglau a'i olwg yn tynnu dŵr o'm dannedd. Yr wyf yn meddwl tybed fydd digon i bawb. Nid ydym i fod i ofyn am ragor o flaen pobl ddiarth.

Y Lôn Wen

Tu ôl i'r gegin yr oedd y tŷ Ilaeth, un digon helaeth, rhes o botiau Ilaeth cadw ar un ochr iddo a llechi crynion ar eu hwynebau, ac un pot Ilaeth gwahanol â chaead pren arno, lle cedwid y bara, ein bara ni ein hunain. Yr oedd bwrdd yno hefyd; ar hwn y trinidad y menyndd ar ddiwrnod corddi – ac y gwneid y crwst teisen, bwrdd mawr hefyd efo drorau ynddo, a elwir yn 'fwrdd cwpwrdd' gan rai, a digon o silffoedd i gadw llestri, a'r corddwr hefyd. Yr oedd grât yn y tŷ Ilaeth, ond ni ddefnyddid ef ond ambell dro pan fyddai'r gwynt o le manteisiol. Yr oedd yno fangl mawr pren hefyd, ac uwch ben hwn yn y to yr oedd ffenestr a oleuai'r lle i gyd... Mae'r tŷ Ilaeth yn oer braf a'i lorïau llechi yn Ilaith. Mae aroglau menyndd a Ilaeth enwyn a lleithder yno, aroglau yr wyf i'w cofio am byth. Mae nain yn cymryd pwys o fenyn caled oddi ar y llechen ac yn ei roi ar blât.

Awn yn ôl i'r gegin a chawn de. Mae bara menyn nain yn ddigon o ryfeddod. Mae'n estyn pot o jam cwsberis o'r cwpwrdd. 'Roeddwn wedi anghofio hwn,' meddai, 'Kate Bryncelyn gwnaeth o.'

Atgofion

1. Y GEGIN

CYMHARWCH	Cae'r Gors	Eich cartref	Castell Penrhyn Plas Glynllifon
Dull goleuo			
Cynhesu			
Coginio			
Dodrefn			

2. Y SIAMBER

CYMHARWCH	Cae'r Gors	Eich cartref	Castell Penrhyn Plas Glynllifon
Dillad			
Y gwely - dillad, cynhesu			
Y waliau - trwch, lliw			
Ble mae yna deledu?			

3. Y TŶ LLAETH

CYMHARWCH	Cae'r Gors	Eich cartref	Castell Penrhyn Plas Glynllifon
Offer golchi dillad			
Offer coginio			
Deunydd llawr a tho			
Dulliau goleuo a chynhesu			
Ble mae yna dŷ llaeth?			

4. Y PARLWR

CYMHARWCH	Cae'r Gors	Eich cartref	Castell Penrhyn Plas Glynllifon
Ymhle mae parlwr? Oes ganddoch chi enw gwahanol?			
Lle tân, silff-ben-tân			
Llestri ar y bwrdd te, bwyd			
Beth sydd ar y waliau?			
Pwy fyddai'n dod yma?			

ADEILAD A THIR

CYMHARWCH	Cae'r Gors	Eich cartref	Castell Penrhyn Plas Glynllifon
Maint y tŷ			
Math o dŷ			
Oedran y tŷ			
Deunyddiau adeiladu ee. cerrig, brics, llechi, pren, fffenestri dwbl			
Faint o dir			
Faint o bobl fu/sy'n byw yno Y teulu Gweision a morynion			
Gwaith y rhieni – tad mam			

PLANHIGION

- Sut fath o blanhigion sydd yn yr ardd? Enwch y gwahanol rai.

- Beth yw'r gwahaniaeth rhyngddynt?

- Pa rai sy'n ddiogel i'w bwyta?

Pecyn Addysg Cae'r Gors

CYNEFINOEDD

CA2 - Gwaith Maes

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Gwyddoniaeth/ Daeryddiaeth/ A Awyr Agored CA 2 Teitl: Defnydd tir/ Cynefinoedd ½ diwrnod, 2 ½ - 3 awr

Nod: Deall natur yr amrywiaeth o gynefinoedd a defnydd tir mewn ardal chwarelyddol a sut y daethant i fod

Amcanion:

Bydd y disgyblion yn gallu:

Gwyddoniaeth, cyd-ddibyniaeth organebau -

Daeryddiaeth, gwahanol amgylcheddau-

Addysg Awyr Agored -

Adnabod gwahanol gynefinoedd

Cymharu planhigion sydd i'w gweld mewn dau amgylchedd cyferbyniol lleol

Adnabod effeithiau gweithgareddau dynol ar y tirwedd

Ymestyn geirfa ddaeryddol

Sylweddoli cyfrifoldeb yr unigolyn am yr amgylchedd

Cerdded am gyfnod estynedig a darllen map

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Caban - Croeso, cyflwyniad i'r daith a mesurau diogelwch	Taflen asesiad risg	Gwrando ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
1.45 - 2 awr	Taith i fyny'r Lôn Wen a thros Foel Smytho yn dilyn map gan aros yn y gwahanol gynefinoedd	Mapiau, ffotograffau Clipfyrddau, bagiau plastig, Tafenni gwaith	Dilyn taith ar fap, lleoli ffotograffau Arsylwi a chofnodi defnydd tir, planhigion yn y cynefinoedd
15 m	Beudy - ystafell ddehongli	Paneli dehongli Cyfrifiaduron	Adnabod planhigion Chwarae gemau perthnasol
30 m	Caban - trafod cynnwys y tafenni gwaith - adnabod planhigion Defnydd tir – pentref, tyddyn, ffyrdd, llwybrau, comin, ffos Cynefinoedd – caeau, ffosydd, afon, cors, tir mynydd	Tafenni'r grwpiau Cardiau adnabod planhigion Llyfrau cyfair	Holi ac ateb Paru'r cardiau mewn grwpiau Defnyddio llyfrau cyfair

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Gwyddoniaeth/ Daeryddiaeth/ A Awyr Agored CA 2 Teitl: Defnydd tir/ Cynefinoedd 1 diwrnod, 9.30 – 2.30

Nod: Deall natur yr amrywiaeth o gynefinoedd a'r gwahanol ddefnydd tir mewn ardal chwarelyddol

Amcanion:

Bydd y disgyblion yn gallu:

Gwyddoniaeth, cyd-ddibyniaeth organebau -

Daeryddiaeth, gwahanol amgylcheddau-

Addysg Awyr Agored -

Adnabod gwahanol gynefinoedd

Cymharu planhigion sydd i'w gweld mewn dau amgylchedd cyferbyniol lleol

Adnabod effeithiau gweithgareddau dynol ar y tirwedd

Ymestyn geirfa ddaeryddol

Sylweddoli cyfrifoldeb yr unigolyn am yr amgylchedd

Cerdded am gyfnod estynedig a darllen map

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
20 m	Caban - Croeso, cyflwyniad i'r daith a mesurau diogelwch	Taflen asesiad risg	Gwrando ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
2 awr	Taith i fyny'r Lôn Wen a thros Foel Smytho gan aros yn y gwahanol gynefinoedd a dilyn map	Mapiau, ffotograffau, clipfyrddau, bagiau plastig, taflenni gwaith	Dilyn taith ar fap, lleoli ffotograffau Arsylwi a chofnodi defnydd tir Planhigion yn y cynefinoedd
30 m	CINIO		
20 m	Ystafell ddehongli	Paneli dehongli Cyfrifiaduron	Adnabod planhigion Chwarae gemau perthnasol
30 m	Caban - trafod cynnwys y taflenni gwaith - adnabod planhigion	Taflenni'r grwpiau Cardiau adnabod planhigion Llyfrau cyfair	Holi ac ateb Paru'r cardiau Defnyddio llyfrau cyfair
10 m	EGWYL		
15 m	Dyfyniadau perthnasol o waith Kate Roberts	Taflen dyfyniadau	Trafod
30 m	Darllen stori - un o'r rhain: <i>Deian a Loli - 'Dianc i'r Mynydd'</i> <i>Te yn y Grug - 'Nadolig y Cerdyn'</i>	Llyfrau Kate Roberts	Gwrando a thrafod

DEFNYDD TIR / CYNEFINOEDD

Defnydd tir

Mae'r tirlun a welwn o'n cwmpas heddiw yn dangos sut mae dyn wedi newid y tirwedd naturiol dros amser. Defnyddiodd y tir i bwrpasau gwahanol, ar wahanol adegau.

Cynefin

Cynefin ydi lle arbennig ble mae'r math o bridd, y tywydd, faint o ddŵr a haul mae'n gael, ydi o'n sych neu wlyb, yn gysgodol neu yn llygad yr haul, yn penderfynu sut blanhigion a pha greaduriaid fydd yn byw yno.

Ar y daith yma o gwmpas Rhosgadfan ac ardal Moeltryfan cawn weld sut mae dyn wedi defnyddio'r tir a pha gynefinoedd sydd i'w gweld.

Defnydd tir	
O gwmpas Rhosgadfan	Ardal Moel Smytho a Moeltryfan

CYNEFINOEDD

Cynefin	Sut le/ nodweddion	Planhigion

- Pam bod y tyddynnod ble maen nhw?
- Pam codi pentref Rhosgadfan ble mae o?
- Tua faint ydi oed y pentref?

GEIRFA DEFNYDD TIR / CYNEFINOEDD

pentref

adeilad

comin

creigiog

planhigion

mwsogl

chwarel

mynydd

grug

brwyn

pwll

tyddyn

wal gerrig

corsdir

caeau

cen

coedwig

tomen lechi

dyffryn

eithin

rhedyn

nant

Pecyn Addysg Cae'r Gors

MYND I'R CHWAREL

CA2 - Gwaith Maes

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Daearyddiaeth/ Hanes/ A Awyr Agored

CA 2

Teitl: Mynd i'r chwarel

½ diwrnod

2 ½- 3 awr

Nod: Cyflwyniad i ddatblygiad chwareli llechi, tyddynnod a phentrefi yn Oes Fictoria

Amcanion:

Bydd y disgyblion yn gallu:

**Daearyddiaeth, materion amgylcheddol -
Hanes, newidiadau yn yr ardal leol yn y 19g -**

Addysg Awyr Agored -

**Adnabod y ffyrdd yr effeithiodd dyn ar y tirwedd
Arsylwi a chofnodi effaith y diwydiant ar yr ardal
Deall sut oedd chwarel yn gweithio
Cyflawni taith gerdded estynedig
Dilyn map**

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
10 m	Caban - Cyflwyniad a mesurau diogelwch	Taflen asesiad risg	Gwrando ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
15 m	Cegin – amser brechwast y teulu	Bwrdd, cadeiriau, tun bwyd, piser	Gwrando ac ateb Llenwi tun bwyd
40 m	Cerdded i'r gwaith	Map a ffotograffau Taflenni gwaith Clipfyrddau a phensiliau	Dilyn map, lleoli ffotograffau Llenwi taflenni
20 m	Yn y chwarel – trefn y gwaith	Cŷn a gordd	Holli llechi Trafod gwaith y chwarel
20 m	Cerdded adref	Map a ffotograffau	Dilyn map
20 m	Ystafell ddehongli	Paneli dehongli Celfi chwarel Cyfrifiaduron	Edrych ar y paneli Enwi'r celfi Gêm Cerdded i'r Chwarel
30 m	Caban – trafod	Taflenni Lluniau chwarelwyr Ffotograffau o'r chwarel	Trafod cynnwys y taflenni Sylwadau am y lluniau

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Daearyddiaeth/ Hanes/ A Awyr Agored

CA 2

Teitl: Mynd i'r chwarel

1 diwrnod, 9.30 – 2.30

Nod: Cyflwyniad i ddatblygiad chwareli llechi, tyddynnod a phentrefi yn Oes Fictoria

Amcanion:

Bydd y disgyblion yn gallu:

Bydd y disgyblion yn gallu:

**Daearyddiaeth, materion amgylcheddol -
Hanes, newidiadau yn yr ardal leol yn y 19g -**

Addysg Awyr Agored -

**Adnabod y ffyrdd yr effeithiodd dyn ar y tirwedd
Arsylwi a chofnodi effaith y diwydiant ar yr ardal
Deall sut oedd chwarel yn gweithio
Cyflawni taith gerdded estynedig
Dilyn map**

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
10 m	Caban - Cyflwyniad a mesurau diogelwch	Taflen asesiad risg	Holi ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
30 m	Gweld rhan o'r ffilm Darllen stori	Ffilm <i>Byd Begw – 'Tun bwyd a sgidia hoelion mawr'</i>	Edrych a gwranddo, trafod
20 m	Cegin - Amser brecwast y teulu	Bwrdd, tun bwyd, piser,	Llenwi tun bwyd
40 m	Cerdded i'r gwaith	Map, ffotograffau, taflenni gwaith wats, clipfyrddau a phensiliau	Dilyn map, lleoli ffotograffau Amseru'r daith
30 m	Yn y chwarel, trafod camau cael llechi toi	Cŷn a gordd	Holli llechi
20 m	CINIO [neu yn y drefn arall]	Map a ffotograffau taflenni gwaith	Dilyn map, lleoli ffotograffau
30 m	Cerdded adref	Paneli dehongli, cyfrifiaduron celfi chwarel	Darllen y paneli, enwi'r celfi chwarae'r gemau
30 m	Beudy - ystafell ddehongli	Amlinell map	Llenwi'r map fesul un
30 m	Caban – Ymfudo i'r ardal, agor chwarel, codi tyddynnod, codi pentref	Taflenni, lluniau a ffotograffau o'r chwarel	Holi ac ateb, cynnig barn

MYND I'R CHWAREL

Cegin Beth sydd i frecwast?	
Beth fyddai'r chwarelwr yn ei gario i'r gwaith?	
Faint oedd oed tad ac ewyrth Kate Roberts yn dechrau gweithio?	
Chwarel Faint o amser gymerodd hi i gerdded i'r chwarel?	
Sut oedd cael y graig yn rhydd o ochr y twll?	
Beth fyddai'r gwaith nesaf? Yn y twll - O'r twll i'r sied - Yn y sied - 1- 2- 3-	
Cerdded adref Ydych chi wedi blino?	
Beudy Sut ddillad oedd gan y chwarelwyr?	
Hoffech chi weithio yn y chwarel? Pam?	
Fedrwch chi godi'r rhys?	
Welwch chi ble buon ni ar sgrin y panel chwareli?	
Cegin Fuasech chi'n hoffi lobsgóws i swper chwarel?	
Beth wnewch chi gyda'r nos?	

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Gwyddoniaeth/ Daearyddiaeth/ A Awyr Agored

CA 2

Teitl: Dilyn Afon

½ diwrnod, 2 ½ - 3 awr

Nod: Dysgu am nodweddion afon, cwblhau taith yn ddiogel

Amcanion:

Bydd y disgyblion yn gallu:

Gwyddoniaeth, cyd-ddibyniaeth organebau -
Daearyddiaeth, y byd ffisegol -

Addysg Awyr Agored -

Adnabod gwahanol gynefinoedd
Cofnodi mesuriadau nodweddion afon
Ymestyn geirfa wyddonol a daearyddol
Cwblhau taith gerdded a dilyn llwybr ar fap

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Cyflwyniad, mesurau diogelwch	Taflen asesiad risg	Gwrando ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
1.30 – 2.00 awr	Taith yn dilyn llednant afon Llifon Mesur nodweddion mewn 5 safle Adnabod planhigion, adar	Taflenni gwaith, bagiau plastig Clipfyrddau, pren mesur metr x 5 Mapiau a ffotograffau Taflen lluniau planhigion afon	Arsylwi, mesur a chofnodi mewn grwpiau Lleoli ffotograffau ar fap Sylwi ar blanhigion, adar Ateb cwestiynau
30 m	Cerdded yn ôl i Gae'r Gors	Map	Dilyn map
15 m	Caban - Trafod y gwaith - Nodweddion afon - Effaith dyn ar yr amgylchedd	Llyfrau cyfair, cardiau adnabod planhigion, lluniau afon	Holi ac ateb, cynnig barn Rhestru nodweddion afon Rhestru nodweddion o waith dyn

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Gwyddoniaeth/ Daeryddiaeth/ A Awyr Agored

CA 2

Teitl: Dilyn Afon

1 diwrnod, 9.30 – 2.30

<p>Nod: Dysgu am nodweddion afon Cwblhau taith yn ddiogel</p> <p>Amcanion Bydd y disgyblion yn gallu:</p> <p style="padding-left: 40px;">Gwyddoniaeth, cyd-ddibyniaeth organebau - Daeryddiaeth, y byd ffisegol -</p> <p style="padding-left: 40px;">Addysg Awyr Agored -</p>	<p style="padding-left: 40px;">Adnabod gwahanol gynefinoedd Cofnodi mesuriadau nodweddion afon Ymestyn geirfa wyddonol a daeryddol Cwblhau taith gerdded a dilyn llwybr ar fap</p>
---	--

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Cyflwyniad a mesurau diogelwch	Lluniau afon Taflen asesiad risg	Gwrando ac ateb Cynnig mesurau diogelwch
1.30 - 2 awr	Taith yn dilyn llednant afon Llifon Mesur nodweddion mewn 5 safle Adnabod planhigion, adar	Taflenni gwaith, bagiau plastig Pren mesur metr x 5 Map a ffotograffau Clipfyrddau	Dilyn llinell ar fap, lleoli ffotograffau Arsylwi a chofnodi mesuriadau
20 m	CINIO – yn dibynnu ar yr amser a'r tywydd		
30 m	Cerdded yn ôl i Gae'r Gors	Map a ffotograffau	Defnyddio map
20 m	Neu CINIO		
15 m	Beudy - ystafell ddehongli	Paneli dehongli	Edrych ar y paneli
1.00	Caban – Trafod y gwaith Canlyniad y mesuriadau Nodweddion afon Planhigion ac adar welwyd	Taflenni a lanwyd Lluniau planhigion Llyfrau cyfair Cardiau adnabod cynefinoedd/ afon	Dadansoddi canlyniadau Enwi nodweddion afon Enwi planhigion ac adar Paru llun a gair
10 m	EGWYL		
30 m	Caban - Darllen stori <i>Pont y Cim</i>	Llyfr <i>Straeon Gwydion</i> Llyfr <i>Lladron Afon Llyfni</i>	Gwrando a thrafod

DILYN AFON LLIFON

	Safle 1 Nant Bach	Safle 2 Llwybr y rheilffordd	Safle 3 Ger yr inclên	Safle 4 Pont Dafarn	Safle 5 Ynys y Weirglodd
lled					
dyfnder					
cyflymder araf, gweddol araf, gweddol gyflym, cyflym, cyflym iawn					
gwely'r afon mwd, graean, cerrig,					
planhigion yn y dŵr					
planhigion ar lan yr afon					
adar/anifeiliaid					

BYWYD GWYLLT

Mi welais i y rhain ar lan afon Llifon a'i llednentydd. 'Sgwn i welwch chi nhw?

Ychwanegwch at y rhestr os gwelwch rywbeth arall.

PLANHIGION

plu'r gweunydd

gold y gors

mintys y dŵr

berw'r dŵr

blodyn mwnci

blodyn y gog

iris felen

chwys yr haul

ysgall y gors

danadl poethion

grug

rhedyn

brwyn

crafanc y dŵr

pumdalen y gors

ANIFEILIAID/ADAR

crëyr glas

hwyaden

sigl-i-gwt

glas y dorlan

iâr ddŵr

brithyll

yslywen

dyfrgi

pioden

brân

mwyalchen

robin goch

bwncath

Ydi'r planhigion yma'n tyfu mewn llefydd eraill – ar Foeltryfan, mewn cae, wrth fôn gwrych?

GEIRFA AFON

tarddle

ffynnon

nant /ffrwd

llednant

afon

pwell

llyn

rhaeadr

geirw

dyffryn

ceunant

bala

graean

mwd

llif

cludo

dyddodi

traeniad

erydu

ymdroelli

dolennu

ystum

ceulan / torlan

gwely

trobwll

aber /moryd

cerrig

craig

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

- Mae afon yn draenio'r tir.
- Mae afon yn cynyddu mewn maint wrth lifo tua'r môr.
- Mae afonydd yn amrywio mewn maint a lled.
- Mae llethr ac arwynebedd yn effeithio ar y modd y mae dŵr yn llifo o'r tir i'r afon.
- Mae afonydd yn cludo, dyddodi ac erydu gan greu tirffurfiau.
- Mae afon yn llifo'n gyflymach lle mae'r sianel yn llyfn.
- Mae afon yn llifo'n arafach lle mae'r sianel yn arw.
- Mae afon yn creu dyffryn
- Mae'r rhan fwyaf o ddyffrynnoedd Cymru wedi eu ffurfio gan rewlifau yn ogystal ag afonydd.
- Mae afonydd yn creu patrwm ar y tir.
- Mae pobl wedi, ac yn parhau i ddylanwadu ar afonydd - draeniad, sianel, llygredd, pont ayyb.
- Mae dŵr wedi bod ac yn parhau i fod yn bwysig iawn i bobl.
- Gall afonydd orlifo gan achosi trychinebau.

GWAITH TYWYDD DRWG

Dilyn Afon

- 1) Nodweddion afon a) map lliw
b) lliwio llun
- 2) Tarddle ac aber - gwaith map
- 3) Amser brecwast - iaith
- 4) Y crëyr glas - englyn + lliwio
- 5) Bywyd i bawb

Defnydd tir / Cynefinoedd

- 1) Lluniau ar sgrîn yn y Beudy
- 2) Dyfyniadau byrion – llun i gyd-fynd
- 3) Lleoli ar fap – Moeltryfan, Moel Smytho, Mynydd Mawr, Mynydd y Cilgwyn, Y Foryd, Rhosgadfan, Carmel, Y Fron, Rhostryfan
- 4) Paru llun a gair – nodweddion amgylcheddol – defnydd tir, cynefinoedd, dilyn afon

TAFLEN YSGOGI TRAFODAETH YN Y TŶ (GWAITH TYWYDD DRWG)

Yn y gegin

Pa synau glywch chi?

Pa lyfrau o eiddo teulu Kate Roberts sydd ar y silffoedd?

Faint o bobl oedd yn byw yma?

Beth fyddai'r chwarelwr yn ei gario i'w waith bob dydd?

Yn y tŷ llaeth

Beth oedd pwrpas y tŷ llaeth?

Pam fod y tŷ llaeth yng nghefn y tŷ?

Pa lysiau sydd yma?

Gafaelwch yn un o'r sosbenni

Yn y parlwr

Beth wnaeth y gweinidog eu gadael ar ôl?

Beth sydd ar y wal?

Fyddai'r plant yn chwarae yma?

Yn y siamber

Oes yna le tân yma?

Beth oedd effaith to isel?

Pam bod jwg a basn yma?

Ble mae'r teledu?

Ble'r oedd y plant yn cysgu?

Dysgwch y pennill yma:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y daflod,
Tyrd i lawr, mae'r uwd yn barod,
Powlen fach a llwy bren,
Yn oes oesoedd, Amen.**

Pecyn Addysg Cae'r Gors

Cyfnod Sylfaen, CA2 - Celf

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Celf Cyfnod Sylfaen Teitl: Arlunio ar lechi ½ diwrnod, 2 awr - 2 ½awr

<p>Nod Arlunio ar lechi gan ddefnyddio paent acrylig</p> <p>Amcanion Bydd y disgyblion yn gallu:</p> <p style="padding-left: 40px;">Archwilio lliw gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau a'r broses gymysgu lliwiau Deall priodweddau defnyddiau newydd Esbonio a gwerthuso'r broses</p>
--

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Croesawu'r disgyblion a chyflwyno cefndir Kate Roberts	Ffotograffau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
20 m	Ymweld â'r tŷ a'r ardd	Clipfyrddau Papur Pensiliau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar Gwneud braslun o Gae'r Gors
15 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn y tŷ	Siart troi	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
Gweddill o'r amser	Arlunio ar lechi	Darnau addas o lechi Pensiliau gwyn Paent acrylig Glud PVA Brwshys paent	Tynnu llun o Gae'r Gors ar ddarn i lechen ac yna'i beintio, gan ddefnyddio'u brasluniau fel symbyliad.

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Celf Cyfnod Sylfaen Teitl: Arlunio ar lechi 1 diwrnod, 9.30 - 2.30 o'r gloch

<p>Nod Arlunio ar lechi gan ddefnyddio paent acrylig yn ogystal â mynd ar daith gerdded i wneud brasluniau o dyddynnod eraill yn yr ardal Amcanion Bydd y disgyblion yn gallu:</p> <p style="padding-left: 40px;"> Archwilio lliw gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau a'r broses gymysgu lliwiau Deall priodweddau defnyddiau newydd Trafod gwaith arlunydd o Gymru Esbonio a gwerthuso'r broses</p>
--

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Croesawu'r disgyblion a chyflwyno cefndir Kate Roberts	Ffotograffau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
30 m	Ymweld â'r tŷ a'r ardd	Clipfyrddau Papur Pensiliau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar Gwneud braslun o Gae'r Gors
15 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn y tŷ	Siart troi	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
60 m	Arlunio ar lechi	Darnau addas o lechi Pensiliau gwyn Paent acrylig Glud PVA Brwshys paent	Tynnu llun o Gae'r Gors ar ddarn o lechen ac yna'i beintio, gan ddefnyddio'u brasluniau fel symbyliad.
30 m	CINIO		Trosodd...

60 m	Taith gerdded - Tyddynnod Rhosgadfan	Clipfyrddau Papur Pensiliau	Braslunio e.e. wal gerrig, ffens crawiau, to llechi
30 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn ystod y daith	Bralsuniau'r disgyblion	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
Gweddill o'r amser	Defnyddio llun William Selwyn o Gae'r Gors fel symbyliad i dynnu llun ar y cyd o dyddyn nodweddiadol.	Llun William Selwyn Papur siwgr Pasteli Chwistrell gwallt.	Tynnu llun ar y cyd o dyddyn nodweddiadol.

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Celf

Cyfnod Allweddol 2

Teitl: Y Tyddynnod

½ diwrnod, 2 ½awr - 3awr

<p>Nod Defnyddio gwaith yr arlunydd Karen Jones fel symbyliad i wneud llun <i>collage</i> o Gae'r Gors</p> <p>Amcanion Bydd y disgyblion yn gallu: Deall, ymchwilio a gwneud</p>	<p>Gwybod y ffordd i dynnu cymariaethau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill Deall fel y gall gwaith artistiaid eraill lywio eu gwaith eu hunain Ymchwilio i'r amgylchedd naturiol Gwerthuso</p>
--	--

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Croesawu'r disgyblion a chyflwyno cefndir Kate Roberts	Ffotograffau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
20 m	Ymweld â'r tŷ a'r ardd	Clipfyrddau Papur Pensiliau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar Gwneud braslun o Gae'r Gors
15 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn y tŷ	Siart troi	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
Gweddill o'r amser	Defnyddio llun Karen Jones o Gae'r Gors fel symbyliad	Pensiliau Papur siwgr Pasteli Darnau o lechi mân Llinyn Sisyrnau	Gwneud llun <i>collage</i> o Gae'r Gors gan ddefnyddio gwaith Karen Jones fel symbyliad

Cae'r Gors: Ymweliad Ysgolion Cynradd

Pwnc: Celf Cyfnod Allweddol 2 Teitl: Y Tyddynnod a'r Lôn Wen 1 diwrnod, 9.30- 2.30 o'r gloch

<p>Nod Defnyddio gwaith yr arlunwyr Karen Jones a Kyffin Williams i ysbrydoli darnau o waith celf</p> <p>Amcanion Bydd y disgyblion yn gallu: Deall, ymchwilio a gwneud</p>	<p>Gwybod y ffordd i dynnu cymariaethau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill Deall fel y gall gwaith artistiaid eraill lywio eu gwaith eu hunain Ymchwilio i'r amgylchedd naturiol Gwerthuso</p>
---	--

Amser	Gweithgaredd	Deunyddiau/Offer	Gweithgaredd y disgyblion
15 m	Croesawu'r disgyblion a chyflwyno cefndir Kate Roberts	Ffotograffau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
20 m	Ymweld â'r tŷ a'r ardd	Clipfyrddau Papur Pensiliau	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar Gwneud braslun o Gae'r Gors
15 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn y tŷ	Siart troi	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
120 m	Defnyddio llun Karen Jones o Gae'r Gors fel symbyliad	Pensiliau Papur siwgr Pasteli Darnau o lechi mân Llinyn Sisyrnau	Gwneud llun <i>collage</i> o Gae'r Gors gan ddefnyddio gwaith Karen Jones fel symbyliad
30 m	CINIO		Trosodd...

60 m	Taith gerdded - Y Lôn Wen	<i>Y Lôn Wen</i> Clipfyrddau Papur Pensiliau	Gwneud brasluniau o'r tirlun
30 m	Y Caban Trafod ymateb y disgyblion i'r hyn a welsant yn ystod y daith	Brasluniau'r disgyblion	Gofyn ac ateb cwestiynau ar lafar
Gweddill o'r amser	Defnyddio llun Kyffin Williams o Gae'r Gors fel symbyliad i dynnu llun o'r Lôn Wen.	Papur siwgr gwyn Pasteli.	Tynnu llun o'r Lôn Wen gan ddefnyddio gwaith Kyffin Williams fel symbyliad.

Testunau Enghreifftiol

CYFNOD SYLFAEN

- a) Arlunio ar lechi
- b) Defnyddio'r **Llyfr Lliwio** fel man cychwyn

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Deall

- Cymharu eu gwaith â gwaith eraill, artistiaid amlwg
- Arbrofi gyda dulliau artistiaid eraill

Ymchwilio

- Cofnodi ar sail arsylwi er mwyn ymchwilio i :

Amgylchfyd naturiol

Amgylchedd gwneud

1) Llenorion

Ffotograffau Cyngor Celfyddydau Cymru, Ilun Dewi Tomos:

Kate Roberts, Gwyn Thomas, Caradog Prichard, Eigr Lewis Roberts, John Gwilym Jones, TH Parry-Williams, T. Rowland Hughes.

2) Chwarelwyr

- a) Lluniau Wyn Williams
- b) Murlun Glynllifon, Wil Jones
- c) Celfi ac offer yng Nghae'r Gors

3) Tyddynnod

- a) Lluniau Karen Jones

- b) Ffotograffau Dewi Tomos
- c) Kyffin Williams
- ch) Cae'r Gors

4) **Cae'r Gors**

- a) Tu mewn, lluniau Alan Jôs
- b) Un gwrthrych – tegell, lamp olew, twb golchi, piser a thun bwyd, potel ddŵr poeth, clocsiau
- c) Dehongliadau gwahanol artistiaid o Gae'r Gors:
William Selwyn, Karen Jones, Wyn Williams

5) **Artistiaid**

- a) gwybodaeth am bob un + llun
- b) edrych ar waith yn y cyntedd:
 - Kyffin Williams – Y Lôn Wen
 - William Selwyn – Cae'r Gors
 - Karen Jones – Cae'r Gors
- c) Y murlun – Mari Gwent + plant Rhosgadfan a Rhostryfan, y gerdd 'Fan Hyn' gan Gwyneth Glyn a'r plant

6) **Ar daith**

Brasluniau - tyddynnod, wal gerrig, pont, coed, golygfa